# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

Mae adroddiad blynyddol y cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **18 Mai 2016.** Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Andrew Jones | Adran Etholiadol: | Y Cocyd |
|---|---|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Ynghyd â'm cydgynghorydd ar gyfer Ward y Cocyd, cynhaliais gymorthfeydd stryd misol yn y ward.

Rwy'n parhau i fod yn llywodraethwr yn Ysgol Gynradd Waunarlwydd ac Ysgol Gynradd y Login Fach y mae'r ddwy wedi cael arolygiadau cadarnhaol gan Estyn.

Rwyf wedi gweithio'n agos iawn gyda'r rhieni, y pennaeth a'r Adran Addysg i sicrhau cyllid i alluogi Ysgol y Login Fach i dderbyn mwy o ddisgyblion.

Rwy'n ymddiriedolwr yng Nghanolfan Gymunedol Waunarlwydd ac euthum i gyfarfodydd misol rheolaidd.

Hefyd, euthum i gyfarfodydd PACT rheolaidd yn y ward a gweithio'n agos gyda'r heddlu i fynd i'r afael â materion megis ymddygiad gwrthgymdeithasol, baw cŵn, traffig a pharcio anghyfreithlon.

Rwy'n gweithio'n agos gyda phreswylwyr yng Ngendros i sicrhau cyllid ar gyfer ffens o gwmpas y lle chwarae i blant ac rwy'n parhau i weithio gyda phreswylwyr yn Waunarlwydd i fynd i'r afael â phroblemau traffig ar Heol Victoria a Heol Bryn.

Yn ychwanegol at yr uchod, rwyf wedi ymdrin ag ymholiadau etholwyr niferus sy'n cwmpasu materion megis; traffig, ymddygiad gwrthgymdeithasol, tenantiaeth, dyrannu tai, tipio anghyfreithlon, baw cŵn, casglu sbwriel, niwsans sŵn, parcio preswylwyr a chwynion i'r cyngor.

## Adran 2: Presenoldeb y cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y cyngor. Mae cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

Isod dangosir % presenoldeb seiliedig ar aelodaeth pwyllgor:

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet - Gwasanaethau Corfforaethol | 2 | / | 6 | 33 | % |
| Y Cyngor | 13 | / | 18 | 72 | % |
| Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Gynnwys a Chynhwysiad | 0 | / | 2 | 0 | % |
| **CYFFREDINOL** | **15** | **/** | **26** | 58 | **%** |
| **Cyfarfodydd Craffu:** | | | | | |
| Panel Ymchwiliad Craffu Trechu Tlodi | 0 | / | 1 | 0 | % |
| **CYFFREDINOL** | **0** | **/** | **1** | **0** | **%** |

# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2015-2016

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r cynghorydd**

Rwyf wedi cadeirio'r Gweithgor Craffu mewn perthynas â “Diwylliant Corfforaethol” a chyflwyno'r canfyddiadau i'r Cabinet.

Rwy'n aelod o'r panel craffu sy'n ymchwilio i effaith polisi'r cyngor ar dlodi ac rwy'n aelod o Bwyllgor Cynghori'r Cabinet - Gwasanaethau Corfforaethol.

Cynrychiolais Gyngor Dinas a Sir Abertawe, ac rwy'n parhau i'w gynrychioli, ar Uned Ddata Llywodraeth Leol Cymru, Gweithdy Pobl Ddall Abertawe a Bay Leisure

**Adran 4: Mentrau a gweithgareddau arbennig**

Rwyf wedi gweithio gyda'm cydweithwyr ward a'r gymuned i barth 20mya gael ei roi ar waith yn Waunarlwydd. Rwy'n parhau i weithio gyda phreswylwyr i fynd i'r afael â phroblemau traffig a pharcio parhaol trwy'r ward.

**Adran 5: Dysgu a datblygu**

Euthum i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

12/10/2015 – Categoreiddio Ysgolion (Llywodraethwyr)
25/11/2015 - Cyflwyniad i Gynnwys y Gymuned
17/05/2016 – Hawliau Plant (Llywodraethwyr)

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Fel bob amser, mae fy mhrif ffocws wedi bod ar weithio i sicrhau bod y cyngor yn gweithio'n effeithiol ac yn ymateb i faterion a godir gan etholwyr a gweithio i ddiwallu anghenion y gymuned leol.

Trwy gydol y flwyddyn, rwyf wedi cefnogi llawer o ddigwyddiadau lleol, gan gynnwys cyngherddau ysgol a ffeiriau a digwyddiadau cymunedol.

**Adran 7: Taliadau cydnabyddiaeth i gynghorwyr**

Cyflog Sylfaenol: £13,300

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0
Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad**: | 20.05.2016 |